

TUDALEN 10

Cofnodion y **Pwyllgor Cynllunio o bell**, a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom **nos Lun 17 Mai 2021** am 8.41 pm.

YN BRESENNOL: - Eu Teilyngdod y Maer Cynghorydd Owen Hurcum (Cadeirydd), Y Dirprwy Faer Cynghorydd Gwynant Roberts
Cynghorwyr : Luke Tugwell, John Wynn Jones, Medwyn Hughes, Enid Parry, Dylan Fernley, Kieran Jones.

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Gwynfor Owen (Cyfieithydd) Sioned Jones (Cofnodion)

22/21 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ifan James, Nigel Pickavance, Mair Rowlands, Elin Walker Jones, John Martin, John Wyn Williams.

23/21 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

24/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

25/21 PENODI AELODAU'R PWYLLGOR

Y cyfarfod hwn i barhau â'r aelodau oedd yn bresennol o'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau (aelodau arfaethedig yn disgwyl cadarnhad yng nghyfarfod y Cyngor Llawn). O hynny ymlaen dim ond aelodau'r 2 brif bwyllgor i fod yn bresennol gyda hawliau pleidleisio; gall aelodau eraill fod yn bresennol i wneud sylwadau.

26/21 PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR

Cadeirydd y Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau neu Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid yn eu tro. Ar gyfer y noson hon, cynigiwyd fod Eu Teilyngdod y Maer yn aros yn y Gadair.

27/21 CEISIADAU CYNLLUNIO

Ceisiadau Strategol

C21/0387/11/RA Rhyddhau amod rhif 2 o ganiatâd cynllunio C19/0398/11/LL (Cynllun Rheoli'r Amgylchedd Adeiladu)/ [Gwynedd | Council Direct \(llyw.cymru\)](#)

Cymeradwywyd

C21/0419/11/RA Rhyddhau amod 8 (adroddiad ymchwil archeolegol) ac amod 15 (adroddiad rhywogaethau ymwithiol anfrodorol) o ganiatâd cynllunio rhif C14/1248/11/AM. [Gwynedd | Council Direct \(llyw.cymru\)](#)

Gwrthwynebwyd: a) mae nodweddion archeolegol diddorol ar y safle

b) mae'r Cyngor angen mwy o wybodaeth am y rhywogaethau ymwithiol

C21/0426/11/RA Rhyddhau amod rhif 9 (cynllun rhwydwaith rheoli dŵr wyneb cynaliadwy) ac amod 10 (cynllun draenio cynhwysfawr ar gyfer y safle) o ganiatâd cynllunio C14/1248/11/AM). [Gwynedd | Council Direct \(llyw.cymru\)](#)

Cymeradwywyd

C21/0441/11/RA Rhyddhau amod 16 (cynllun tai fforddiadwy) o ganiatâd cynllunio amlinellol rhif C14/1248/11/AM. [Gwynedd | Council Direct \(llyw.cymru\)](#)

Cymeradwywd

C21/0439/11/RA Rhyddhau amod 3 (tirweddu) a 12 (darpariaeth parcio) o ganiatâd cynllunio amlinellol C14/1248/11/AM ac amod 5 (deunyddiau), 6 (triniaeth ffin), 7 (storfa biniau) ac amod 8 (tirweddu) o ganiatâd materion a gadwyd yn ôl C17/0135/11/MG. [Gwynedd | Council Direct \(llyw.cymru\)](#)

Cymeradwywyd

Ceisiadau Trefniadol

C21/0392/11/LL Codi canopi er mwyn creu cyfleuster clicio a chasglu a man newidiadau i lecynnau parcio [Gwynedd | Council Direct \(llyw.cymru\)](#)

Dim gwrthwynebiad

C21/0389/11/LL Codi canopi er mwyn creu man llwytho, newidiadau i lecynnau parcio a mannau gwefru ceir trydanol [Gwynedd | Council Direct \(llyw.cymru\)](#)

Dim gwrthwynebiad

C21/0404/11/LL Cais ar gyfer codi tŷ pedwar llawr gydag islawr er mwyn creu 4 uned breswyl hunan gynhaliol [Gwynedd | Council Direct \(llyw.cymru\)](#)

Sylwadau - adeilad newydd yw hwn o 4 o fflatiau. Nid oes darpariaeth ar gyfer biniau sbwriel. Roedd rhai aelodau'n teimlo ei fod yn rhy fawr i'r lleoliad - byddai'n ymwithio dros y tai sydd yn y rhes yn barod. Fodd bynnag, teimlad ei bod yn bwysig fod aelodau yn Ward Menai (nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod) yn gallu rhoi sylwadau, a gwneud hynny heb gael eu dylanwadu gan sylwadau a wnaed yn y cyfarfod.

Y Cyfarwyddwr Dinesig i ofyn i aelodau lleol Ward Menai edrych ar y cynlluniau yn ofalus iawn a rhannu eu sylwadau.

*Holodd yr aelodau a fyddai modd mynd yn ôl at y system o roi cyfeiriadau ar geisiadau cynllunio, i hwyluso'r drafodaeth ar y noson.

28/21 MATERION PRIFFYRDD

Dim.

29/21 MATERION TRWYDDEDU

Dim.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.00 pm